# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

**5 Rhagfyr 2019**

**Arbed Dyfodol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol**

## 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

Cadeirydd: Jayne Bryant AC

Aelodau eraill o'r Cynulliad: Llyr Huws-Gryffudd AC, Angela Burns AC, Lynne Neagle AC.

Rhennir y cyfrifoldeb am ysgrifenyddiaeth y grŵp rhwng NSPCC Cymru, Stop it Now! Cymru a Survivors' Trust Cymru.

## 2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol diwethaf

### Cyfarfod 1

***Dyddiad y cyfarfod*** *:* 15.05.19
***Yn bresennol***

Cecile Gwilym, Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru
Ruth Mullineux, Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru
Steven Prince, Swyddog Cyfryngau, NSPCC Cymru
Claire Short, Stop it Now! Cymru
David Hopkins, Cadeirydd, Stop it Now! Cymru
Phillip Walker, Cyfarwyddwr, Survivors' Trust Cymru
Menna Thomas, Cyfarwyddwr Polisi, Barnardo's Cymru
Tony Hendrickson, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Staff Cymorth, swyddfa Lynne Neagle
Hannah Dicks, arweinydd camfanteisio'n rhywiol arbBlant, Heddlu De Cymru

Jayne Bryant AC, Cadeirydd

Presennol ar gyfer tynnu llun:

Joyce Watson AC
Lesley Griffiths AC
Rebecca Evans AC
Huw Irranca-Davies AC
Paul Davies AC
Dawn Bowden AC
Jayne Bryant AC

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Agorodd Jayne Bryant AC y cyfarfod a chroesawodd y rhai oedd yn bresennol. Atgoffodd y mynychwyr fod technoleg yn rhan ganolog o fywydau plant heddiw ond, yn anffodus, mae hyn yn eu gwneud yn agored i gael eu camfanteisio ar-lein.

Aeth ymlaen i ddweud bod cyfle unigryw i weithredu er mwyn cadw plant yn fwy diogel ar-lein gan adeiladu ar y cynllun gweithredu diogelwch ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc. Dywedodd bod y cyfarfod yn gyfle i glywed am effaith camfanteisio ar-lein ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc ac i addo cefnogaeth i lanhau Gorllewin Gwyllt y We.

Mae ymgyrch Gorllewin Gwyllt y We NSPCC, a gefnogir gan y sefydliadau partner sy'n ffurfio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol yma yn y Cynulliad, wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU i weithredu er mwyn rheoleiddio llwyfannau cymdeithasol. Mae galwadau allweddol yn cynnwys dyletswydd gofal y gellir ei orfodi'n gyfreithiol ar gyfer llwyfannau, rheoleiddiwr annibynnol, a phwerau tryloywder a datgelu gyda gweithdrefn adrodd yn ôl manwl ar gyfer darparwyr cyfryngau cymdeithasol ar sut mae plant yn cael eu hamddiffyn. Croesawodd gamau gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn a chyhoeddiad y papur gwyn diweddar 'Online Harms'. Fodd bynnag, dywedodd fod angen sicrhau ein bod ni, yma yng Nghymru, yn ychwanegu ein cefnogaeth at ymdrechion i sicrhau bod y cynigion hyn yn dod yn realiti, fel y gellir amddiffyn pob plentyn ledled y DU yn briodol tra ar-lein.

Yna gofynnodd Jayne Bryant AC i'w cyd-Aelodau Cynulliad a'r rhai a oedd yn bresennol i addo cefnogaeth i'r ymgyrch, ac i weithio gyda hi er mwyn sicrhau bod cyfle i Lywodraeth Cymru gyfrannu at y cynigion hyn. Yna gofynnodd i ACau eraill lofnodi'r datganiad barn sydd wedi'i gyflwyno ar y mater hwn.

Gorffennodd Jayne Bryant drwy ddweud bod gan blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o niwed ar-lein angen cefnogaeth i sicrhau y gallant wella o'r hyn sydd wedi digwydd iddynt. Dywedodd y byddai'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y cynllun gweithredu cenedlaethol sydd ar ddod ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cymorth digonol i'r bobl ifanc hynny.

<u>Stori person ifanc, wedi'i darllen gan Ruth Mullineux, NSPCC Cymru</u>

Heb ei gofnodi gan nad oes ganiatâd i rannu hyn yn eang.

<u>Trafodaeth</u>

Bu'r rhai a oedd yn bresennol yn trafod pwysigrwydd siarad â phobl ifanc am y broses o feithrin perthynas amhriodol a chwalu mythau am bwy sy'n meithrin perthynas amhriodol â phobl ifanc a sut maen nhw'n wneud hynny. Nid dynion hŷn sydd bob amser yn cysylltu â merched ifanc, gall hefyd ddigwydd gyda phobl rydych chi'n eu hadnabod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 er mwyn caniatáu i ACau a oedd yn dymuno cael tynnu eu lluniau ac addo cefnogi ymgyrch Gorllewin Gwyllt y We yr NSPCC alw heibio (gweler y mynychwyr uchod).

__Cyfarfod 2__

***Dyddiad y cyfarfod***: 23 Hydref 2019 (a Chyfarfod Blynyddol Cyffredinol)

***Yn bresennol:***

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Debbie Sargent | Llywodraeth Cymru |
| Damian Rees | Prif swyddog diogelu, Cyngor Abertawe |
| James Dowler | Uned Diogelu'r Cyhoedd, Heddlu De Cymru |
| Kerry Wade | Tîm Plant ar Goll Gwent |
| David Hopkins | Cadeirydd, Stop it Now! Cymru |
| Jan Pickles | Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| Chris Frey-Davies | Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg |
| Stuart Williams | Swyddogion Polisi,<br>yr Undeb Addysg Cenedlaethol |
| Alice Mercer | Swyddog Atal, Cymdeithas y Plant |
| Fiza Rahman | Prosiect Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig |
| Matt Jukes | Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru |
| Joanna Rhydderch | Heddlu Gwent |
| Beth | Goroeswr |
| May Baxter-Thornton | Grŵp cyfeirio yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol |
| Misty Lee | Stop it Now! |
| Jennie Henderson | Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Stepping Stones Gogledd Cymru |
| Fflur Emlyn | Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru |
| Jane Ruthe | Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru |
| Claire Short | Uwch Reolwr, Stop it Now! |
| Ruth Mullineux | Uwch Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru |
| Cecile Gwilym | Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru |
| Catrin Simpson | Pediatregydd, Ynys Saff |
| Kate Rothwell | Llywodraeth Cymru |
| Martin Mahoney | Cydlynydd Diogelu, Archesgobaeth Caerdydd |
| Catherine Phillips | Cymorth i Ferched Cymru |
| Gillian Jones | Stop it Now! |
| Dep Supt Jason Davies | Heddlu De Cymru |
| Anina Kinzel | Prifysgol Abertawe |
| Deborah Driffield | Pennaeth Gwasanaethau Plant, Caerdydd |
| Pamela Taylor | Stop it Now! |
| Natasha Kalebic | Stop it Now! |
| Emma Curtis | Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru |

| | |
|---|---|
| Jayne Bryant AM | Cadeirydd |
| Julie Morgan AM | Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Sam Clutton | Llywodraeth Cymru |
| Llyr Huws- Gruffydd AM | Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru |

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Canolbwyntiodd y cyfarfod ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-Drin Plant yn Rhywiol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ystod haf 2019, yn dilyn galwad allweddol gan y Grŵp Trawsbleidiol ddiwedd 2017. Croesawyd y datblygiad hwn gan Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol, a wahoddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi cyflwyniad am bwyntiau allweddol am y cynllun. Mae gan Gynllun Gweithredu Cam-Drin Plant yn Rhywiol 10 amcan allweddol a 33 cam gweithredu allweddol ar gyfer partneriaid Llywodraeth Cymru/y bwrdd diogelu. Dyma'r Dirprwy Weinidog hefyd yn cydnabod cyfraniad partneriaid y trydydd sector wrth ddatblygu polisi. Yna clywodd y rhai a oedd yn bresennol gan oroeswyr am eu blaenoriaethau ar gyfer newid: soniodd pawb am bwysigrwydd codi llais a pheidio â chael eich distewi, ac am godi ymwybyddiaeth. Tynnodd un goroeswr sylw at yr angen i weithio gyda chyflawnwyr i atal y cylch cam-drin.

**Argymhellion allweddol ar gyfer y drydedd flwyddyn:**

Roedd y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei phenderfyniad i greu cynllun gweithredu ar gyfer rhwystro plant rhag cael eu cam-drin, yn dilyn galwadau'r grŵp am hyn a gweithgaredd y grŵp yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae'r Grŵp yn edrych ymlaen at ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ymhellach yn dilyn cyhoeddi'r cynllun gweithredu.

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Sam Clutton, Llywodraeth Cymru
Grŵp Gweithredu Stop it Now! Cymru

# Datganiad Ariannol Blynyddol
# 5 Rhagfyr 2019
# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol

Cadeirydd: Jayne Bryant AC
Ysgrifenyddiaeth y grŵp: NSPCC Cymru, Stop it Now! Cymru, The Survivors' Trust Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim | £0.00 |
| **Cost yr holl nwyddau** | £ 131.62: cyfieithu briff ar gyfer cyfarfod Gorllewin Gwyllt y We (Mai 2019) *(talwyd amdano gan NSPCC Cymru)* | £131.62 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall** | Ni chafwyd cymorth ariannol | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch**<br><br>Talwyd am yr holl luniaeth gan NSPCC Cymru, Stop it Now! Wales a Survivors' Trust Cymru. | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad ac enw'r darparwr** | **Cost** |
| | Darparwyd bwffe ysgafn a lluniaeth ar gyfer digwyddiadau dros yr awr ginio gan Charlton House Catering | 3442.07 |
| | **Cyfanswm y gost** | |